# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 18 MEHEFIN 2025 am 10.00 o'r gloch** | | **THURSDAY, 18 JUNE 2025 at 10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke 01248 752518** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Mr David Davies
Mr Thomas Rhys Davies
Mr Brace Griffiths
Mrs Gill Murgatroyd
Mr Trefor Owen

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Margaret M Roberts
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Iorwerth Roberts
Mrs Margaret Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad of ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cadarnhau cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2026.

**3 DATBLYGIAD AELODAU** (Tudalennau 11 - 16)

Adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol.

**4 DIWEDDARIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** (Tudalennau 17 - 20)

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5 CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)** (Tudalennau 21 - 26)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â: -

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref a Chymuned
ar gyfer Chwarter 4, 2025/26.

**6 PENDERFYNIADAU CYHOEDDUS AR GYFER HOLL GYNGHORAU CYMRU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 27 - 30)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Ganlyniadau Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

**7 PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU (PDC)** (Tudalennau 31 - 36)

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

**8 CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG** (Tudalennau 37 - 40)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau.

**9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2025/2026** (Tudalennau 41 - 56)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn darparu drafft o adroddiad blynyddol y Pwyllgor.

10 **YMWELIADAU/ARSYLWI CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 57 - 60)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i'r Pwyllgor gytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer arsylwi/ymweld â Chynghorau Tref a Chymuned.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr Trefor Owen (Cadeirydd)<br>Mr Brace Griffiths (Is-gadeirydd)<br>Mr David Davies<br>Mrs Gill Murgatroyd |
| | **Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Y Cynghorydd Iorwerth Roberts |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (LL)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer Eitem 4)<br>Swyddog Hyfforddi Adnoddau Dynol Cynorthwyol (LAJ) (ar gyfer Eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Rhys Davies<br>Y Cynghorydd Margaret M Roberts<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br>Mrs Margaret Thomas (Cyngor Tref/Cymuned)<br>Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol (EP) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Estynnodd groeso cynnes i Mr David Davies, aelod annibynnol newydd o'r Pwyllgor Safonau.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Mrs Gill Murgatroyd a Mr David Davies ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 7 ar raglen heddiw. Mae'r ddau'n aelodau o Bwyllgor Safonau Sir y Fflint ond ni wnaethont gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniad ar yr eitem.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod a chadarnhawyd eu bod yn gywir:-

- 16 Mai 2025 (Gwrandawiad Lleol)
- 12 Mehefin 2025

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y camau gweithredu yn y cofnodion naill ai wedi cael eu cwblhau neu eu bod yn derbyn sylw.

Cyflwynwyd cofnodion drafft Panel Dethol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod a'u nodi er gwybodaeth:-

· 6 Tachwedd 2025
· 13 Tachwedd 2025

## 3. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu Adnoddau Dynol er mwyn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar yr hyfforddiant a gynigiwyd i aelodau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor hwn ym mis Mehefin 2025.

Dywedodd y Swyddog Hyfforddi AD fod nifer yr aelodau sydd wedi cwblhau hyfforddiant mandadol wedi cynyddu. Dywedodd mai Diogelu sydd â'r gyfradd gwblhau isaf, sef 83%. Pwysleisiwyd fod cymorth ar gael i gael mynediad at fodiwlau hyfforddiant ar y Gronfa Ddysga os oes angen. Nodwyd na fydd angen i'r 29 aelod sydd wedi cwblhau'r modiwl Diogelu ailymweld â'r hyfforddiant yn ystod y cyfnod adnewyddu presennol o dair blynedd.

Bydd angen i'r Cyngor addasu ei hyfforddiant Diogelu er mwyn adlewyrchu Fframwaith Hyfforddiant newydd Gofal Cymdeithasol Cymru a'r canllawiau a ddiweddarwyd. Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â'r rhaglen newydd ar gyfer modiwlau Diogelu a sut y byddai'n cael ei gweithredu.

Nodwyd fod cynnydd da'n parhau i gael ei wneud ar y Cynllun Datblygu ar gyfer Arweinyddion Grwpiau. Cynhelir y sesiwn hyfforddi olaf yn fuan, a darperir adborth maes o law.

Mae cydweithio agos rhwng y Tîm Dysgu a Datblygu AD a'r Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i fod yn effeithiol.

Nodwyd hefyd y byddai'r tîm Dysgu a Datblygu yn anfon nodyn i atgoffa Aelodau pan fydd angen diweddaru hyfforddiant mandadol.

Gofynnodd y Cadeirydd am restr o aelodau sydd eto i gwblhau hyfforddiant mandadol.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Bod y Tîm Dysgu a Datblygu AD yn anfon nodyn atgoffa at aelodau sydd eto i gwblhau hyfforddiant Diogelu.**
- **Bod y Swyddog Hyfforddi AD yn anfon rhestr o aelodau nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant mandadol at y Cadeirydd.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 4. DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth mewn perthynas â gwaith llywodraethiant a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod 23 o aelodau etholedig wedi cyflwyno adroddiadau blynyddol ar gyfer 2024/25, ychydig yn llai na'r llynedd. Dywedodd fod lefelau ymateb Ynys Môn yn ffafriol o gymharu â chynghorau eraill yng ngogledd Cymru. Rhennir templed ar gyfer cofnodi adroddiadau blynyddol 2025/26 gydag aelodau ym mis Mawrth, i'w cwblhau erbyn diwedd mis Mai a'u cyhoeddi ym mis Mehefin 2026.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod aelodau'n cael eu hatgoffa i ddiweddaru eu Cofrestrau o Ddiddordebau cyn pen 28 diwrnod os bydd unrhyw newid yn eu hamgylchiadau. Anfonwyd nodyn atgoffa ar 13 Ionawr gyda chyfarwyddiadau ar sut i ddiweddaru'r gofrestr ar-lein.

Nodwyd bod Arweinyddion Grwpiau'n derbyn diweddariad rheolaidd ynghylch hyfforddiant eu haelodau. Mae sgyrsiau blynyddol hefyd yn cael eu cynnal rhwng Arweinyddion Grwpiau ac aelodau unigol, er mwyn trafod eu hanghenion hyfforddi a datblygu.

Bydd adolygiad o drefniadau etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned yn cychwyn y mis hwn, er mwyn ystyried p'un a yw'r nifer bresennol o wardiau etholiadol ac aelodau ar Gynghorau Tref a Chymuned yn addas i'r pwrpas.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Gweithred: Dim**

## 5. CWYNION YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â chwynion ymddygiad a dderbyniwyd yn erbyn (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Cyngor Tref/Cymuned, ar gyfer Chwarter 1, 2 a 3 2025/26.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod OGCC wedi ymchwilio i ddau achos yn erbyn Cynghorwyr Sir yn ystod y cyfnod. Cyfeiriwyd yr achos cyntaf, a dderbyniwyd ym mis Awst 2023, at y Pwyllgor Safonau er mwyn cynnal gwrandawiad. Cynhaliwyd gwrandawiad lleol ar 16 Mai 2025, ac mae gweithredoedd yn deillio o'r mater bellach wedi'u cwblhau ac mae'r achos wedi'i gau.

Mae'r ail achos, a dderbyniwyd ym mis Awst 2024, yn parhau i gael ei ymchwilio. Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad gan OGCC.

Derbyniwyd un gŵyn gan OGCC mewn perthynas â Chynghorwyr Tref/Cymuned yn ystod Chwarter 1, a chynhaliwyd ymchwiliad cychwynnol. Yn ystod Chwarter 2,

daeth OGCC i'r casgliad nad oedd y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri a chaewyd yr ymchwiliad. Derbyniodd OGCC ddwy gŵyn newydd ynglŷn â'r un mater yn ystod Chwarter 2, ond cawsant eu gwrthod.

Ystyriwyd tri chwyn newydd yn ystod Chwarter 3; gwrthodwyd dau yn ddiweddar ac mae un yn cael ei ymchwilio.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys Atodiadau 1 - 6 yn yr adroddiad.**

**Gweithred: Dim**

**6. PENDERFYNIADAU A GYHOEDDWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER YR HOLL GYNGHORAU YNG NGHYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro oedd yn crynhoi'r penderfyniadau a gyhoeddwyd gan OGCC mewn perthynas â chwynion Cod Ymddygiad yng Nghymru rhwng 1 Mehefin a 31 Rhagfyr 2025.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (LL) fod OGCC wedi cyhoeddi dwy Newyddlen Chwarterol, ynghyd ag Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y pwyntiau dysgu canlynol mewn perthynas â'r canfyddiadau a gyhoeddwyd:-

- Caniateir trafodaeth a her gadarn rhwng aelodau a swyddogion o dan y Cod. Tynnwyd sylw at yr angen i'r ddwy ochr ddangos parch at y naill a'r llall.
- Atgoffwyd aelodau bod ymddiheuriad cynnar, didwyll, a'r ffaith bod yr aelod wedi meddwl am yr hyn a wnaeth yn bethau cadarnhaol ym marn yr Ombwdsmon.
- Gellir cynorthwyo sefyllfa aelod yn fawr trwy ddarparu tystiolaeth ar y pryd a thystiolaeth o gadw cofnodion ac e-byst.
- Mewn perthynas ag un achos penodol, roedd yr Ombwdsmon yn awyddus iawn i ddeall yr hyfforddiant a ddarparwyd i aelodau ynghylch y Gorchmynion Sefydlog a Threfniadau Llywodraethu. Er y penderfynwyd nad oedd budd i'r cyhoedd trwy gymryd camau pellach, roedd yn amlwg nad oedd yr aelod wedi derbyn hyfforddiant yn yr achos hwnnw.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid anfon crynodeb o'r negeseuon allweddol yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau at Gynghorau Tref/Cymuned. Trafododd y Pwyllgor y canfyddiadau a gyhoeddwyd gan OGCC ar gyfer dau achos, h.y. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Powys a Chyngor Tref y Trallwng, a chytunodd anfon y canfyddiadau a gyhoeddwyd ymlaen at y Cynghorau Tref/Cymuned.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys y crynodebau achos.**

- **Cyfeirio prif bwyntiau'r canfyddiadau a gyhoeddwyd gan OGCC mewn perthynas â'r ddau achos uchod i'r Cynghorau Tref/Cymuned er gwybodaeth.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod.**

## 7. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU (PDC)

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn crynhoi tri phenderfyniad a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru (PDC) rhwng 1 Ionawr a 31 Mai 2025.

Tynnodd y Swyddog Monitro sylw at y pwyntiau dysgu o'r pum achos y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at ddau bwynt yn ymwneud â'r achos cyntaf, gyda'r cyntaf er ystyriaeth y Pwyllgor Safonau yn unig. Cyflwynwyd apêl yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau cyn anfon yr achos ymlaen at Banel Dyfarnu Cymru (PDC). Canfu'r Tribiwnlys Apêl nad oedd y Pwyllgor Safonau wedi esbonio ei benderfyniad mewn llythyr penderfyniad ac roedd wedi methu â dangos sut y bu iddo arfarnu tystiolaeth, ac nid oedd wedi nodi rhesymau clir i gefnogi ei benderfyniadau.

Mae'r ail bwynt dysgu'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau a'i aelodau, sef nad oedd hawl gan y Pwyllgor Safonau i orfodi aelodau etholedig i fynychu hyfforddiant, dim ond eu hannog i gymryd rhan.

Mae'r ail achos yn ymwneud â gwahardd aelod am bedair blynedd. Y prif bwynt yn yr achos hwn yw bod y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael blaenoriaeth yn hytrach nag Erthygl 10 - 'Rhyddid i Lefaru' mewn cyd-destun gwleidyddol, ac mae hynny'n cynnig amddiffyniad sylweddol yn y math hwn o gŵyn.

Roedd y pedwerydd achos yn gysylltiedig â thorri mwy nag un agwedd o'r Cod. Y wers a ddysgwyd oedd bod PDC wedi casglu fod y ffeithiau'n cefnogi'r penderfyniad bod sawl agwedd o'r Cod wedi cael eu torri. Er bod yr unigolyn yn aelod, penderfynodd y Panel nad oedd yn gweithio fel aelod ar y pryd a bod y toriad wedi digwydd yn ei fywyd preifat. Penderfynodd PDC fod yr aelod wedi dwyn anfri ar ei swydd fel Cynghorydd a'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y crynodebau achos.**

**Gweithred: Dim**

## 8. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â chanlyniad y ceisiadau am ganiatâd arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ers y cyfarfod diwethaf.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Cynghorydd Keith Roberts a'r Cynghorydd Jeff Evans wedi cyflwyno ceisiadau am ganiatâd arbennig gan eu bod yn cynrychioli'r

Awdurdod Lleol ar Fwrdd Llywodraethu Ysgol Uwchradd Caergybi. Nodwyd fod y Cynghorydd Jeff Evans yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol hefyd.

Ar 9 Hydref 2025, ystyriwyd y ddau gais gan Banel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau. Roedd y ddau Gynghorydd yn gofyn am ganiatâd i gymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 15 Hydref 2025 mewn perthynas â'u diddordebau yn y cynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi.

Roedd y Cynghorydd Roberts wedi datgan diddordeb personol mewn perthynas â'r eitem hon.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn nodi'r caniatâd arbennig a roddwyd a'r amgylchiadau dros eu caniatáu.**

**Gweithred: Dim**

**9. DIWEDDARIAD GAN Y RHEOLWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL/DIRPRWY SWYDDOG MONITRO**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro er mwyn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW) grynodeb o'r camau a gymerwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, fel a ganlyn: -

- Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/25 gan y Cyngor llawn ar 25.9.25. Anfonwyd copi o'r adroddiad at OGCC.
- Ysgrifennodd y Pwyllgor Safonau at bob Cyngor Tref a Chymuned ar 6.8.25 i ofyn am gopi o'u cynlluniau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Dim ond 6 ymateb a dderbyniwyd hyd yma.
- Ysgrifennodd y Cadeirydd at OGCC ar 16.7.25 i fynegi pryderon y Pwyllgor ynghylch faint o amser mae'n cymryd i ymchwilio i honiadau. Derbyniwyd ymateb gan OGCC oedd yn cyfeirio at gynlluniau diweddar i wella eu hamseroedd, gan gynnwys dyrannu adnoddau ar gyfer swyddi newydd yn y tîm Cod Ymddygiad.

Mynegwyd pryderon ynghylch yr ymatebion gwael gan Gynghorau Tref/Cymuned. Roedd aelodau o'r farn fod angen atgyfnerthu'r neges fod gofyn statudol i bob Cyngor fod â chynllun hyfforddi. Cyfeiriodd y Cadeirydd at drafodaeth anffurfiol flaenorol, pan gytunodd y Pwyllgor i ddatblygu rhaglen hyfforddi i adolygu gwaith y Cynghorau Tref/Cymuned. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro fod rhaglen hyfforddi'n cael ei datblygu. Dywedodd y bydd angen dull sydd wedi'i dargedu'n well, yn ogystal â throsolwg ychwanegol gan y Pwyllgor Safonau.

Awgrymodd y Swyddog Monitro y dylai'r Pwyllgor ysgrifennu at Glercod Cynghorau Tref/Cymuned a gofyn am fanylion cyfleoedd hyfforddi a ddarparwyd ganddynt i'w Cynghorwyr yn ystod cyfnod o ddeuddeg mis, ac i ofyn hefyd am eu trefniadau ar

gyfer y dyfodol. Nodwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei drafod ymhellach yn anffurfiol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**Gweithred: Dim**

## 10. NODIADAU BRIFFIO'R PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â'r uchod.

Ar ôl ystyried adroddiad Archwilio Cymru mewn perthynas â materion llywodraethu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW) y cytunwyd bod angen adolygu ac ailgyhoeddi'r nodiadau briffio i aelodau yn unol â'r amserlen a nodir yn yr adroddiad. Ystyrir bod diweddaru ac ailgyhoeddi'r nodiadau briffio yn arfer dda, er mwyn cefnogi a chynnal safonau da.

Pan fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, bydd y nodiadau briffio diwygiedig yn cael eu rhannu ag aelodau, Arweinyddion Grwpiau a'r Pwyllgor Safonau. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr Arweinyddion Grwpiau wedi cytuno i hyrwyddo'r nodiadau briffio ymysg eu haelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r camau nesaf mewn perthynas â'r adolygiad ac ailddosbarthu Nodiadau Briffio Aelodau i aelodau, Arweinyddion Grwpiau a'r Pwyllgor Safonau.**

**Gweithred: Dim**

## 11. FFORWM PWYLLGOR SAFONAU CENEDLAETHOL CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â'r uchod.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW) fod cyfarfod o'r Fforwm wedi'i gynnal ar 23 Mehefin 2025. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar faint o amser mae OGCC yn ei gymryd i ymchwilio i honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad.

Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal ar 26 Ionawr 2026, a bydd y Cadeirydd yn mynychu. Yn dilyn y cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn rhannu ei sylwadau a chofnodion y cyfarfod gyda'r Pwyllgor hwn.

Roedd y Cadeirydd yn croesawu unrhyw eitemau er mwyn iddo gyflwyno cais i'w cynnwys ar raglenni cyfarfodydd y fforwm yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Gweithred: Dim**

**12. RHEOLIADAU LLYWODRAETH LEOL (PWYLLGORAU SAFONAU AC YMDDYGIAD AELODAU) (DIWYGIADAU AMRYWIOL) (CYMRU) 2025**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ynglŷn â'r ddeddfwriaeth uchod a ddaeth i rym ar 5 Ionawr 2026.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (LL) fod y newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn cynnwys pennu meini prawf cymhwysedd ar gyfer aelodau lleyg ar Bwyllgorau Safonau. Mae'r newidiadau'n ymwneud â'r cyfnod o amser sy'n gorfod mynd heibio cyn y gall person a fu'n gweithio mewn awdurdod perthnasol yn y gorffennol wneud cais i fod yn aelod lleyg o Bwyllgor Safonau.

Gwnaethpwyd newidiadau pellach i Orchymyn Cod Ymddygiad (Cymru) 2008 trwy ychwanegu diffiniad o'r 'nodweddion gwarchodedig' a diwygio paragraff 4(a). Mae'r newid yn ehangu'r warchodaeth ac mae'n sicrhau fod y Cod yn cyd-fynd â chyfraith cydraddoldeb.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod y newid yn y ddeddfwriaeth wedi'i gynnwys yn Rhaglen Waith y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a bydd yn gweithio gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen sy'n delio â materion a hyfforddiant cydraddoldeb.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r diwygiadau a'r camau fydd yn cael eu cymryd i weithredu a chydymffurfio â'r Rheoliadau.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau yn ysgrifennu at aelodau i gadarnhau'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau yn codi'r mater gyda Rheolwr Polisi a'r Gymraeg y Cyngor, er mwyn derbyn eglurhad ynglŷn â'r hyn sydd ynghlwm â'r gofyniad o ran deddfwriaeth, cyn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod.**

**13. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**14. CWYNION YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC)**

Cyflwynwyd - adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, oedd yn darparu gwybodaeth bellach ynglŷn â phenderfyniadau OGCC yn ystod Chwarteri 1, 2 a 3 2024/25.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (LL) fod y tri hysbysiad penderfyniad a drafodwyd o dan Eitem 5 ar y rhaglen yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref/Cymuned wedi cael eu crynhoi yn Atodiad 1 er mwyn eu trafod ymhellach.

Yn yr achos cyntaf, nodwyd fod OGCC yn ymwybodol o faterion yn gysylltiedig â mynediad i'r cyhoedd yn ystod cyfarfodydd y Cyngor Tref/Cymuned hwn. Daeth i'r casgliad nad oedd tystiolaeth o fethu â chydymffurfio â'r Cod, felly ni chymerwyd camau pellach.

Yn yr ail achos, penderfynodd OGCC nad oedd y gŵyn yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliad. Rhoddwyd cyfle i'r achwynydd gyflwyno gwybodaeth bellach. Cyflwynwyd gwybodaeth gan yr achwynydd a chafodd ei ystyried. Daeth OGCC i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth resymol gref o dorri'r Cod, felly ni chynhaliwyd ymchwiliad.

Yn y trydydd achos, rhoddwyd dewis i'r achwynydd ddarparu gwybodaeth bellach i gefnogi'r achos, ond ni chyflwynwyd gwybodaeth bellach. Penderfynodd OGCC beidio ag ymchwilio ymhellach i'r gŵyn.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**Gweithred: Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40 am

**MR TREFOR OWEN**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 18 MEHEFIN 2026 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DYSGU A DATBLYGU |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | ELEN PRITCHARD |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDARIAD AR FATERION DYSGU A DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safonau ar faterion dysgu a datblygu aelodau, hynny ers yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2026 a chan roi trosolwg o'r ddarpariaeth a gynigiwyd i'n Haelodau Etholedig dros y cyfnod diwethaf.

## 2. Y CYNLLUN

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r cynllun dysgu a ddatblygwyd ar gyfer ein Haelodau Etholedig wedi'i rannu o dan y penawdau canlynol: **Hyfforddiant mandadol; cyffredinol; iechyd a lles; ar gais; a modiwlau e-ddysgu**.
Gyda'r penawdau hyn mewn golwg, ceir isod ddiweddariad ar y ddarpariaeth hyfforddiant a gynigiwyd ers mis Ebrill 2023 hyd heddiw.

Cynigiwyd cyfanswm o 55 o gyfleoedd dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Dysgu a Datblygu. Ceir manylion llawn yn Atodiad 1.
Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am yr hyfforddiant sydd wedi'i ddynodi'n fandadol (fel yr amlinellir gan y Gwasanaethau Democrataidd), a'u lefelau presenoldeb cyfatebol;

| | |
|---|---|
| Côd Ymddygiad | 35/35 |
| Iechyd a Diogelwch | 34/35 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 33/35 |
| Diogelu Data | 32/35 |
| Seibrddiogelwch | 35/35 |
| Diogelu | 28/35 |

Disgwylir i bob Aelod fynychu'r teitlau hyn fel isafswm, gyda hyfforddiant a digwyddiadau pellach ar gael i gefnogi'r meysydd allweddol hyn.
Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod cyfraddau cwblhau'r teitlau hyn mor uchel â phosibl.

## 3. HYFFORDDIANT DIOGELU

Ymhellach i'r diweddariad roddwyd ynghylch y maes hwn yn ein hadroddiad diwethaf ym mis Ionawr, mae trafodaethau ar waith gyda'r Gwasanaeth

Democratiaeth er mwyn annog cyfranogiad tuag at yr e-fodiwl newydd sydd ar gael ar y Gronfa Ddysgu. Byddwn yn adrodd maes o law ar gynnydd a llwyddiant y gwaith yma.

## 4. CYNLLUN DATBLYGOL AR GYFER ARWEINYDDION GRŴP

Yn dilyn cais gan y Pwyllgor hwn, sefydlwyd a chynigiwyd Cynllun Datblygu i Arweinwyddion Grŵp. Roedd y cynllun yn cynnwys:

- Proffil DiSC (math o broffil personoliaeth) wedi ei ddilyn gyda sesiwn dadansoddi 1:1 wedi'i chynnal gan hyfforddwr annibynnol
- Cyfres o o leiaf bedair sesiwn cymhelliant dan arweiniad cymhellydd profiadol.
-

Isod ceir crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd gan gyfranogwyr y cynllun. Mae'n bwysig nodi mai tri o'r pedwar Arweinydd Grŵp a gwblhaodd y gyfres lawn o sesiynau. Er na chwblhawyd y rhaglen gan un arweinydd, ni ddarparwyd manylion pellach ynghylch y rhesymau dros hynny. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.

### i. Trosolwg Cyffredinol

Yn gyffredinol, derbyniwyd y cynllun yn gadarnhaol iawn gan y cyfranogwyr. Cafwyd consensws bod y rhaglen wedi:

- Darparu **profiad datblygiadol gwerthfawr**
- Cefnogi **datblygiad personol ac arweinyddiaeth**
- Cynnig **gofod diogel i fyfyrio a thrafod heriau'r rôl**

  Roedd y dull gweithredu, yn enwedig y sesiynau unigol, yn elfen allweddol o'i llwyddiant.

### ii. Prif Ganfyddiadau

**Gwerth y Sesiynau Unigol**

Nodwyd yn gyson mai'r elfen fwyaf gwerthfawr oedd y sgyrsiau cymhelliant gyda'r cymhellydd:

- Darparodd y sesiynau **gyfle i fynegi pryderon a heriau mewn amgylchedd diogel**
- Disgrifiwyd y gefnogaeth fel **empathetig, gwybodus, ac adeiladol**
- Roedd y gallu i drafod materion heb farn na "agenda gudd" yn arbennig o werthfawr

**Hunanfyfyrio a Hunanwybyddiaeth**

Pwysleisiwyd effaith y rhaglen ar:

- **Hunanfyfyrio dyfnach**
- **Gwell hunanymwybyddiaeth**
- Dealltwriaeth well o:
  - Arddulliau cyfathrebu
  - Ymddygiad arweinyddiaeth
  - Perthynas gyda chydweithwyr

Roedd cyfranogwyr yn nodi nad ydynt yn gwneud digon o fyfyrio fel arfer, ac felly roedd y rhaglen yn llenwi bwlch pwysig.

**Cefnogaeth ac Ansawdd y Berthynas Cymhelliant**
Roedd ansawdd y berthynas gyda'r hyfforddwr yn thema ganolog:

- Disgrifiwyd y cymhellydd fel **clust i wrando** ac yn ffynhonnell gefnogaeth gyson
- Cafwyd **her adeiladol a dilysu penderfyniadau**
- Roedd y dull yn annog **trafodaeth agored a gonest**
  Hyn yn awgrymu bod y gwerth mwyaf wedi deillio o'r broses ryngweithiol yn hytrach na'r cynnwys technegol yn unig.

**Effaith ar y Rôl Arweinyddiaeth**
Mae'r rhaglen wedi cyfrannu at:

- **Well dealltwriaeth o'r rôl Arweinydd Grŵp**
- **Ymagwedd fwy ymwybodol at gyfathrebu ac arweinyddiaeth**
- Ystyried **gwahanol ddulliau o ymdrin â sefyllfaoedd**

**iii. Casgliad**
Mae'r adborth yn dangos bod y Cynllun Datblygu wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan, gyda'r prif gryfderau yn cynnwys:

- **Ansawdd y berthynas cymell**
- **Cyfleoedd pwrpasol i fyfyrio ac adlewyrchu**
- **Creu amgylchedd diogel ar gyfer trafodaeth agored**

**5. CYFATHREBIADAU**

Mae'r cydweithio agos rhwng y Tîm Dysgu a Datblygu, y Gwasanaeth Democrataidd a swyddogion perthnasol eraill yn yr Awdurdod yn parhau i fod yn effeithiol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn ymateb i anghenion ein Haelodau Etholedig ac yn parhau i ddatblygu yn ôl yr angen.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol, sef drwy gyfeiriad e-bost *CefnogaethAelodau*, ynghyd â gwahoddiadau uniongyrchol drwy apwyntiadau calendr electronig.

Rhennir adroddiadau chwarterol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedyn yn cael eu rhannu gydag Harweinyddion Grŵp. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am hyfforddiant mandadol a'r holl hyfforddiant arall a gwblhawyd o fewn y chwarter penodol hwnnw.

**6. FFURF TROSGLWYDDO**

Ar y cyfan, cynhelir y sesiynau fel sesiynau ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae'r symudiad diweddar i gynnig rhai sesiynau rhithiol hefyd yn parhau, ynghyd â'r opsiwn, lle bo'n addas ac yn berthnasol, o recordio sesiynau at

ddefnydd pellach. Dylid nodi bod y dull cyflwyno'n ddibynnol ar y pwnc dan sylw a'r dull a gynigir neu a ffefrir gan y darparwr hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i gael cynnig y dewis o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn gynnar gyda'r nos, er mwyn sicrhau bod eu hymrwymiadau'n cael eu hystyried a chynyddu presenoldeb.

Mae rhai pynciau bellach hefyd yn cael eu cyflwyno ar ffurf e-fodiwlau, gan gynyddu'r cyfle i'w cwblhau mewn modd hyblyg a hwylus.

**7. I GRYNHOI**

Mae'r cynllun dan sylw yn parhau i esblygu a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen, er enghraifft yn dilyn newidiadau mewn deddfwriaeth, gweithdrefnau neu faterion allanol eraill. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i anghenion a nodir a darparu darpariaeth amserol a pherthnasol.

**8. ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**Cynnig hyfforddiant a datblygiad i Aelodau Etholedig 2023 - 2025**

**Training and Development offered to Elected Members 2023 - 2025**

| Teitl y Cwrs | Mynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 **(***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 **(***open to all***)** |
| **Ymwybyddiaeth Menopos (***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Menopause Awareness (***open to all***)** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **13** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **12** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **9** | **15** | **Safeguarding Awareness for Members** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **13** | **30** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **12** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Ymwybyddiaeth Twyll a Llygredd** | **4** | **44** | **Fraud and Corruption** |
| **Beth mae'n ei olygu i fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma?** | **5** | **11** | **What does it mean to be a Trauma Informed Island** |
| | **2** | **2** | **Cyber Security Video** |
| **Arweinyddiaeth Gymunedol Flaengar I Gynghorwyr** | **1** | **1** | **Progressive Community Leadership Training** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau** | **7** | **20** | **Health & Safety for Members** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch i Aelodau**<br>**Gwrth-Hiliaeth**<br>**Gwrth-Hiliaeth**<br>**Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV)**<br>**Rhentu Doeth Cymru** | **4**<br><br>**9**<br>**9**<br>**9**<br>**2** | **20**<br><br>**35**<br>**35**<br>**35**<br>**10** | **Health & Safety for Members**<br>**Anti Racism**<br>**Anti Racism**<br>**Group 6: Strengthening Leadership (VAWDASV)**<br>**Rent Smart Wales** |
| **Grŵp 6: Cryfhau Arweinyddiaeth (VAWDASV)**<br>**Cynllunio i Aelodau**<br>**Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau ar y Côd Ymddygiad**<br>**Cynllunio - Cyfarwyddyd Erthygl 4**<br>**Iechyd a Diogelwch i Aelodau**<br>**Diogelu Data (**cwrs staff yn agored i bawb**)**<br>**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (**cwrs Cymraeg i staff, wedi agor i bawb**)**<br>**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (**cwrs Saesneg i staff, wedi agor i bawb**)**<br>**Seibrddiogelwch i Aelodau**<br>**Craffu ar y Gyllideb: Edrych Ymlaen**<br>**Seibrddiogelwch i Aelodau**<br>**Sesiwn 'Cyber Ninjas' i Gynghorwyr**<br>**Dangos Effaith - Gofyn y cwestiwn 'felly beth'**<br>**Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg**<br>**Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©)**<br>**Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©)**<br>**Gweithdy Cyfathrebu a Chydweithio (DiSC©)** | **16**<br>**34**<br>**10**<br>**33**<br>**9**<br>**6**<br>**5**<br>**5**<br>**1**<br>**-**<br>**1**<br>**35**<br>**-**<br>**1**<br>**2**<br>**1**<br>**1** | **6**<br>**26**<br>**6**<br>**23**<br>**9**<br>**4**<br>**0**<br>**1**<br>**1**<br>**2**<br>**1**<br>**7**<br>**3**<br>**1**<br>**2**<br>**1**<br>**1** | **Group 6: Strengthening Leadership (VAWDASV)**<br>**Planning for Members**<br>**Standards Committee's Code of Conduct Hearings**<br>**Planning - Article 4 Direction**<br>**Health and Safety for Members**<br>**Data Protection (**staff course open to all**)**<br>**Equality, Diversity, and Inclusion (**Welsh staff course opened to all**)**<br>**Equality, Diversity, and Inclusion (**English staff course opened to all**)**<br>**Cyber Security for Members**<br>**Budget Scrutiny: Looking Forward**<br>**Cyber Security for Members**<br>**'Cyber Ninjas' session for Councillors**<br>**Demonstrating Impact - Asking the 'so what' question**<br>**Welsh Language Awareness**<br>**Communication and Collaboration workshop (DiSC©)**<br>**Communication and Collaboration workshop (DiSC©)**<br>**Communication and Collaboration workshop (DiSC©)** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd (**cwrs staff yn agored i bawb**)** | **-** | **1** | **Introduction to Climate Change (**staff course open to all**)** |

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad:** | 18 Mehefin 2026 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Diweddariad Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar waith llywodraethu a chefnogi y gwasanaeth. |
| **Awdur:** | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

**Cyflwyniad**

1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar waith y gwasanaeth democrataidd mewn perthynas a llywodraethiant a chefnogaeth aelodau.

**Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig**

2. Derbyniwyd 23 (66%) adroddiad blynyddol aelod etholedig ar gyfer 2025/26 hyd yma. Dyma'r nifer a dderbyniwyd yn 2024/25 hefyd, ac mae ychydig yn is na'r 26 a dderbyniwyd ar gyfer 23/24. Er hynny, mae'r ganran o adroddiadau a dderbyniwyd yn cymharu'n ffafriol gyda chynghorau eraill ar draws y gogledd. Nid oes gofyn statudol ar aelodau i ddychwelyd adroddiad.

3. Rydym yn y broses o drefnu cyhoeddi'r adroddiadau ar wefan y Cyngor yn y drefn arferol gyda golwg ar gyhoeddi popeth cyn diwedd y mis.

**Sgyrsiau datblygu blynyddol a chofnodion hyfforddiant**

4. Caiff diweddariadau ar hyfforddiant aelodau eu hanfon at arweinyddion grŵp perthnasol yn ol yr angen. Mae hynny'n fodd o fonitro presenoldeb mewn hyfforddiant, a hyfforddiant mandadol yn benodol. Mae'r lefelau cwblhau hyfforddiant mandadol wedi gwella dros y misoedd diwethaf yn sgil ymdrechion y tim dysgu a datblygu a'r gwasanaeth democrataidd.

5. Mae proses "sgwrs flynyddol" mewn lle ar gyfer arweinyddion grŵp a'u haelodau. Trefniant ydi hwn i alluogi arweinydd grŵp i drafod datblygiad yr aelod dan sylw ac unrhyw faterion eraill perthnasol fel llesiant ac hyfforddiant. Cafodd templed sgwrs flynyddol 25/26 ei rannu gyda arweinyddion grŵp ym mis Chwefror ac mae'r cyfnod wedi dod i ben am eleni.

6. Yn ystod y misoedd nesaf bydd hyfforddiant ar gydraddoldeb yn cael ei gynnig i aelodau a byddwn yn gweithio gyda'r aelodau hynny sydd ddim wedi cwblhau unrhyw fodiwlau mandadol.

**Llesiant Aelodau**

7. Mae'n bosibl bydd rhai materion llesiant yn codi yn ystod y sgyrsiau datblygu, ac mae gwasanaeth cwnsela Medra ar gael i aelodau'r Cyngor. Mae'n wasanaeth proffesiynol a chyfrinachol ac ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae gwybodaeth wedi ei rannu gyda aelodau yn flaenorol am y gwasanaeth a byddwn yn cysylltu eto diwedd mis Mehefin er mwyn cyd-fynd gyda'r wythnos llesiant cenedlaethol.

8. Mae etholedig yn destun ymddygiad bygythiol a sylwadau sarhaus ar adegau. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru swyddog sy'n cynghori ar faterion aelodau etholedig ac mae hyfforddiant ar gael i aelodau ar ddiogelwch. Anfonwyd gwybodaeth at aelodau ym mis Mawrth.

**Arolwg Bodlonrwydd Aelodau**

9. Cynhelir etholiadau lleol ym mis Mai 2027 ac mewn paratoad at hynny a chyfnod anwytho aelodau'r Cyngor newydd o 2027 ymlaen, rydym yn bwriadu holi barn aelodau am eu profiadau er mwyn dysgu gwersi a chynllunio.

10. Byddwn yn datblygu holiadur dros yr haf i'w rannu gyda holl aelodau'r Cyngor diwedd Awst am gyfnod o 6 wythnos. Byddwn hefyd yn trefnu sgyrsiau 1:1 gyda sampl o aelodau er mwyn gallu trafod rhai pynciau mewn mwy o fanylder. Bydd y sgyrsiau 1:1 yn digwydd ar ôl derbyn yr holiaduron er mwyn ein galluogi i ddilyn i fyny ar rhai themâu cyffredin sy'n codi o'r ymatebion.

11. Caiff y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei ddiweddaru'n rheolaidd ar ganfyddiadau a chamau gweithredu. Bydd themâu'r arolwg yn cynnwys:
    a. Bodlonrwydd cyffredinol gyda'r gwasanaeth democrataidd
    b. Cefnogaeth i aelodau
    c. Trefniadau ymarferol
    d. Dulliau cysylltu a rhannu gwybodaeth
    e. Gwasanaethau pwyllgor
    f. Llesiant a diogelwch
    g. Hyfforddiant a sgiliau
    h. Technoleg gwybodaeth
    i. Trefniadau anwytho

**Ymgysylltu**

12. Cafodd sesiwn "galw i mewn" ei beilota gyda'r Bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd. Trefnwyd bod rhai o uwch swyddogion rhanbarthol y Bwrdd Iechyd ar gael i

glywed pryderon ac ateb cwestiynau aelodau.  Roedd yn sesiwn agored ac anffurfiol ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol.  Yn sgil hynny  trefnwyd sesiwn galw i mewn arall ar 16 Mehefin.

13. Yn dilyn sesiwn briffio aelodau yn ddiweddar, cytunwyd i gynllunio ar gyfer sesiwn "galw i mewn" gyda'r Heddlu ar blismona lleol maes o law.  Fe wnawn ni roi gwybod i aelodau unwaith fydd dyddiad wedi ei drefnu.

14. Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ysgolion cynradd yr Ynys wedi cael gwahoddiad i ymweld a'r Cyngor a chael sesiynau cwestiwn ac ateb gyda aelodau.  Mae 5 ysgol wedi ymweld gyda'r Cyngor yn 25/26 a bydd 3 arall yn ymweld a'r Cyngor cyn gwyliau'r haf . Caiff aelodau lleol eu gwahodd i'r ymweliadau.

15. Mae'r ymweliadau yn ffordd dda o gyflwyno plant yr Ynys i waith y Cyngor Sir ac i drefniadau democratiaeth lleol. Byddwn yn adolygu'r trefniadau ymweliadau ysgolion dros yr haf ac yn ystyried a oes unrhyw addasiadau i'w gwneud i'r trefniadau.

16. Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg cymunedol statudol o drefniadau etholiadol cynghorau tref a chymuned ar hyn o bryd.  Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol rhwng Ionawr a Mawrth eleni a derbyniwyd ymateb gan 22 o'r 40 cyngor cymuned.  Byddwn yn datblygu cynigion drafft dros yr haf a'u cyflwyno i'r Cyngor Sir cyn ymgynghori ymhellach yn ystod yr hydref.  Caiff y cynghorau cymuned eu diweddaru'n rheolaidd ar y camau drwy'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.

**Argymhelliad**

17. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad a Gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor am y cwynion a gyflwynwyd i OGCC ynglŷn â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned lleol.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)**<br>**lisalord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau yn derbyn diweddariad pob chwarter am y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ynglŷn â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIADAU

2.1 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4 2025/26 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Sir ar gael yn **Atodiad 1**.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4 2025/26 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned ar gael yn **Atodiad 2**.

## 3. CYNGHORWYR SIR

3.1 Mae OGCC yn ymchwilio i un achos yn ymwneud â Chynghorydd Sir ar hyn o bryd; derbyniwyd y gŵyn ym mis Chwefror 2024.

## 4. CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

4.1 Bydd y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sylweddol mewn achosion yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned. Bydd y cwynion a'r hysbysiadau o benderfyniad yn cael eu hadolygu yn awr er mwyn nodi unrhyw dueddiadau a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol.

CC-022335/907793 (907666)

## 5. CYLCHLYTHYR

5.1 Mae OGCC wedi cyhoeddi 10fed rhifyn (Ionawr i Mai) ei newyddlen chwarterol. Mae'r newyddlen ar gael yn Ein cylchlythyr chwarterol: Ionawr - Mai - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

5.2 Nodir bod OGCC wedi cyhoeddi Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2026-2029. Gellir ei weld yma Cynllun Strategol 2026-29

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau'n nodi cynnwys **Atodiadau 1 a 2**.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| 1 | Adroddiad cwynion ar gyfer Chwarter 4 2025/2026 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Sir. |
| 2 | Adroddiad cwynion ar gyfer Chwarter 4 2025/2026 yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned. |

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr- Mawrth 2026) – 2025/2026 – Quarter 4 (January – March 2026)**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Sir / County Councillor** | Aelod / Member | 025515<br>202307670 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 08.02.2024 | O yn parhau i ymchwilio'r gŵyn / O is continuing to investigate the complaint |

**ATODIAD 2**

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 4 (Ionawr- Mawrth 2026) – 2025/2026 – Quarter 4 (January – March 2026)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br><br>Cyngor Tref / Town Council | Cynghorydd/ Councillor | 27242<br>202507077 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 14.11.2025 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated: 21.01.26 |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br><br>Cyngor Tref / Town Council | Aelod o'r Cyhoedd Member of the Public | 202507247 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 26.11.2025 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated: 21.01.26 |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br>Cyngor Tref / Town Council | Cynghorydd/ Councillor | 27331<br>202507944 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 19.12.2025 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated: 22.01.26 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Community Councillor<br><br>Community Council | Aelod o’r Cyhoedd<br>Member of the Public | 27395<br>202509040 | Gohebiaeth gyntaf gan O /<br>First correspondence received from O:<br>28.01.2026 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated:<br>16.04.26 |
| Community Councillor<br><br>Community Council | Aelod o’r Cyhoedd<br>Member of the Public | 27396<br>202508435 | Gohebiaeth gyntaf gan O /<br>First correspondence received from O:<br>06.01.2026 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated:<br>23.03.26 |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br><br>Cyngor Tref / Town Council | Aelod o’r Cyhoedd<br>Member of the Public | 27493<br>202510094 | Gohebiaeth gyntaf gan O /<br>First correspondence received from O: 03.03.26 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated:<br>30.03.26 |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br><br>Cyngor Tref / Town Council | Aelod o’r Cyhoedd<br>Member of the Public | 27492<br>20250990 | Gohebiaeth gyntaf gan O /<br>First correspondence received from O: 03.03.26 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated:<br>25.03.26 (reissued 30.03.26) |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br><br>Cyngor Tref / Town Council | Aelod o’r Cyhoedd<br>Member of the Public | 27491<br>202510020 | Gohebiaeth gyntaf gan O /<br>First correspondence received from O: 03.03.26 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated:<br>29.04.26 |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br>Cyngor Tref / Town Council | Cynghorydd/<br>Councillor | 27517<br>202510275 | Gohebiaeth gyntaf gan O /<br>First correspondence received from O: 16.03.26 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated:<br>22.04.26 |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br>Cyngor Tref / Town Council | Aelod o’r Cyhoedd<br>Member of the Public | 27518<br>202510595 | Gohebiaeth gyntaf gan O /<br>First correspondence received from O: 16.03.26 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated:<br>23.04.26 |
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br>Cyngor Tref / Town Council | Aelod o’r Cyhoedd<br>Member of the Public | 27526<br>202510637 | Gohebiaeth gyntaf gan O /<br>First correspondence received from O: 18.03.26 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated:<br>27.04.26 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Tref / Town Councillor<br>Cyngor Tref / Town Council | Aelod o'r Cyhoedd<br>Member of the Public | 27541<br>202510804 | Gohebiaeth gyntaf gan O / First correspondence received from O: 24.03.26 | Ni ddylid ymchwilio i'r Gŵyn /<br>The complaint should not be investigated: 29.04.26 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau cyhoeddus ar gyfer holl Gynghorau Cymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru gyfan a gyhoeddwyd ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2026 a 30 Ebrill 2026** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Gurvynda Paddan-White**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y pennawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y misoedd Ionawr 2026 hyd at Ebrill 2026 yn gysylltiedig â materion Cod Ymddygiad yn unig [**ATODIAD 1**]. Roedd un mater yn ystod y cyfnod hwn.

## 2. CYLCHLYTHYR CHWARTEROL

Gellir gweld y cylchlythyr ar gyfer y cyfnod rhwng Hydref a Rhagfyr 2025 'yma'

## 3. ARGYMHELLIAD

Bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n arwain trafodaeth ar unrhyw faterion sydd o ddiddordeb yn **ATODIAD 1**.

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| 1 | Crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y pennawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer y misoedd Ionawr 2026 hyd at Ebrill 2026 yn gysylltiedig â materion Cod Ymddygiad yn unig. |
| 2 | Crynodeb o bwerau OGCC mewn perthynas â chwynion Cod Ymddygiad. |

CC-022335/907794 (904133)

**ATODIAD 1 - CRYNODEB O BWERAU**

Mae OGCC yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd ar OGCC i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth OGCC yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae OGCC yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai pheidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys bodloni OGCC:

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai OGCC ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(1) Nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(2) Nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(3) Y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau; neu

(4) Bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (3) neu (4) uchod yn berthnasol, bydd OGCC yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran PDC, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y cod ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb.

Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan bwyllgorau safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb.

Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd cynghorydd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso hyd at 5 mlynedd.

**ATODIAD 2**

| Manylion am yr achos | Prif Ffeithiau | Prif Ganfyddiadau | Dysgu |
|---|---|---|---|
| 202307895<br><br>Cyngor Sir y Fflint<br><br>Pwnc: Datgelu a chofrestru buddiant | Honnwyd bod yr Aelod wedi ymddwyn yn amharchus a difrïol tuag at swyddogion y Cyngor yn ystod y cyfnod yn arwain at bleidlais y Cyngor ar ei Gynllun Datblygu Lleol ("CDLl"); fod yr Aelod wedi ceisio dylanwadu'n amhriodol ar bleidlais aelodau eraill y Cyngor ac nad oedd wedi datgelu buddiant personol oedd yn rhagfarnu yn y CDLl.<br><br>Honnwyd hefyd nad oedd yr Aelod wedi datgan diddordeb personol oedd yn rhagfarnu yn ystod cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023, pan bleidleisiodd y Cyngor o blaid cymeradwyo'r CDLl. | Dim angen gweithredu<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd ymddygiad yr Aelod yn ystod y cyfnod cyn pleidlais y Cyngor ar y CDLl gyfystyr â thorri'r Cod. | Roedd yr Aelod wedi gwneud cais am ganiatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r cais cynllunio perthnasol, gan arddangos gwell ymwybyddiaeth o'i rwymedigaethau o dan y Cod ac roedd ei ymddygiad wedi hynny, mewn perthynas â buddiannau, yn briodol, ar ôl iddo dderbyn cyngor clir gan y Swyddog Monitro mae'n debyg. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ac a gyhoeddwyd rhwng 1 Ionawr a 30 Ebrill 2026** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)**<br>**LisaLord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos, neu dribiwnlysoedd achos interim, i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn dilyn ymchwiliadau gan OGCC i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac

- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr 2026 ac Ebrill 2026. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan PDC. Mae'r achosion a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar wefan PDC ar hyn o bryd ac mae dolenni ar gyfer yr achosion unigol wedi'u cynnwys isod.

Mae'n bwysig nodi fod yr achosion yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol yn bennaf, ond mae unrhyw ddysgu wedi'i nodi lle bo hynny'n addas.

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Ceir crynodeb o'r achosion perthnasol yn **ATODIAD 1**.

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodebau achos.

**ATODIAD:**

| | |
|---|---|
| 1. | Crynodeb o'r achosion a gyhoeddwyd ar wefan Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2026 a 30 Ebrill 2026. |

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o'r Achosion gerbron Panel Dyfarnu Cymru: Ionawr 2026 - Ebrill 2026**

| Manylion yr Achos | Prif Ffeithiau | Prif Ganfyddiadau / Canlyniad | Dysgu |
|---|---|---|---|
| Enw: Y Cynghorydd Iwan Huws<br><br>Cyfeirnod: APW/001/2025-026/CT<br><br>Awdurdod perthnasol: Cyngor Gwynedd<br><br>Natur yr honiad: Torri paragraff 6(1)(a)<br><br>Adroddiad Penderfyniad | Honnwyd bod yr Ymatebydd wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngor Gwynedd sydd yn datgan: *"Ni ddylai Aelodau ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu eich awdurdod."*<br><br>Derbyniodd y cyn gynghorydd Rybuddiad Amodol am y drosedd "Twyll trwy gamddefnyddio swydd" pan geisiodd dwyllo ei gyflogwr trwy gamddefnyddio arian. Honnwyd ei bod yn rhesymol casglu fod yr aelod, yn sgil y Rhybuddiad Amodol a'i gamymddwyn, wedi dwyn anfri ar ei swydd fel aelod a'i Gyngor Sir, gan awgrymu ei fod wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 6(1)(a) o'r Cod. | Torri paragraff 6(1)(a) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>Anghymhwyso am 3 blynedd. | Roedd yr Ymatebydd wedi dal nifer o rolau yn yr Awdurdod perthnasol, gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi a'r Pwyllgor Pensiynau.<br><br>Roedd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd gwestiynu sut y gallai aelod ddal swyddi o'r fath ac yntau wedi dangos diffyg uniondeb wrth geisio caffael arian cyhoeddus trwy anonestrwydd er ei fudd ei hun.<br><br>Er gwaethaf ei edifeirwch, roedd yr Ymatebydd wedi dangos diffyg dealltwriaeth o effaith ei ymddygiad troseddol ar enw da'r Awdurdod perthnasol. |
| Enw: Y Cynghorydd David Devauden<br><br>Cyfeirnod: APW/005/2024-025/CT | Yr honiadau oedd ei fod wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Tref Neyland trwy fethu â dangos parch at eraill, ac ymddwyn mewn ffordd oedd gyfystyr â bwlio a harasio, gan ymddwyn mewn modd oedd yn dwyn anfri | Torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a) a 6(2).<br><br>Anghymhwyso am 4 blynedd. | Roedd yr achos hwn yn ymwneud â phegynnu dwy garfan wahanol o fewn yr Awdurdod dros gyfnod o amser, proses oedd wedi achosi llawer iawn o chwerwder a dig ac wedi arwain at wneud honiadau a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Awdurdod perthnasol: Cyngor Tref Neyland<br><br>Natur yr honiad: Torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a), 6(1)(d) a 6(2)<br><br><u>Adroddiad Penderfyniad</u> | ar ei swydd, gwneud cwynion maleisus, gwamal a/neu flinderus, defnyddio ei swydd i dderbyn a/neu roi mantais a/neu gamddefnyddio adnoddau'r Awdurdod. | | gwrth honiadau. Mae'r hysbysiad o benderfyniad yn datgan "*Er bod hwn yn achos drwg iawn, nid dyma'r achos gwaethaf o'i fath yr oedd y Tribiwnlys wedi'i weld neu'n gallu ei ddychmygu*".<br><br>Er bod posib fod hawliau'r Cynghorydd i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 yn weithredol, i'r graddau yr oedd yn angenrheidiol ymyrryd â nhw er mwyn canfod fod y Cod wedi cael ei dorri, roedd gwneud hynny'n gymesur ac yn gam y gellid ei gyfiawnhau er mwyn amddiffyn hawliau eraill. |
| Enw: Y Cyn Gynghorydd Brian Rothero<br><br>Cyfeirnod: APW/006/2024-025/CT<br><br>Awdurdod perthnasol: Cyngor Tref Neyland<br><br>Natur yr honiad: Torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a) a 6(1)(d) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br><u>Adroddiad Penderfyniad</u> | Roedd cwynion wedi'u gwneud yn erbyn y cyn Gynghorydd ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad yn sgil ei ymddygiad tuag at y Clerc a Chynghorwyr.<br><br>Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad yn ddigon rhwydd bod natur ei ymddygiad gyfystyr â bwlio a harasio. Roedd o wedi cael ei rybuddio ddwywaith am ei ymddygiad mewn e-byst gan y Swyddog Monitro a dewisodd beidio â thalu sylw i'r cyngor, ond yn hytrach fe wnaeth ei herio, ar y sail mai ef oedd yn gywir. | Torri paragraffau 4(b), 4(c), 6(1)(a) a 6(1)(d) o God Ymddygiad y Cyngor.<br><br>Anghymhwyso am 3 blynedd. | Roedd y Cynghorydd wedi ceisio tanseilio'r achwynwyr ac eraill ac ymosod ar OGCC a PDC mewn perthynas â sut y gwnaethon nhw ymdrin â'r gŵyn a'r broses ddyfarnu.<br><br>Nododd y Tribiwnlys ei fod wedi dangos diffyg dealltwriaeth, adlewyrchu, dysgu nac edifeirwch am ei ymddygiad a'i ganlyniadau.<br><br>Nid oedd yn derbyn fod angen iddo addasu ei ymddygiad yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Fe wnaeth o barhau i feio pobl eraill am ei fethiannau ei hun a gwrthododd dderbyn cyfrifoldeb am ei weithredoedd. | | Nid oedd y Cynghorydd yn deall nac yn derbyn y camymddwyn nac unrhyw ganlyniadau, megis tanseilio un o weithwyr y cyngor a'r gofid yr oedd hi a chynghorwyr eraill wedi'i brofi oherwydd y datganiadau yr oedd o wedi'u gwneud, yn ogystal â thanseilio hyder y cyhoedd mewn swyddogion etholedig a'r Cyngor. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Caniatâd Arbennig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor Safonau am ganlyniad unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig ers yr adroddiad ysgrifenedig diwethaf i'r Pwyllgor Safonau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro**<br>**LisaLord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk** |

## 1. CYFLWYNIAD

Fel y nodir yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngor Tref Biwmares, mae unrhyw aelod sydd â diddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn eitem o fusnes wedi'i wahardd rhag cymryd rhan yn y busnes hwnnw.

Mae buddiannau personol yn cael eu rhestru ym mharagraff 10 o'r Cod. Mae paragraff 12 o'r Cod yn diffinio buddiannau sy'n rhagfarnu.

Mewn rhai amgylchiadau penodol, a chyfyngedig, gall aelod oresgyn y rhwystr sy'n cael ei greu gan y diddordeb personol sy'n rhagfarnu os ydynt yn derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau.

## 2. CEFNDIR

Yn aml mae angen caniatâd arbennig ar fyr rybudd, ac o fewn y cyfnod o rybudd cyfreithiol lleiaf posib, ac oherwydd hynny mae'r Pwyllgor Safonau wedi sefydlu trefn lle gellir galw ar Banel o dri aelod i ddelio ag unrhyw gais a dderbynnir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor llawn. Gall unrhyw dri aelod annibynnol / Cyngor Sir gynnal gwrandawiad i geisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr sir (gyda'r mwyafrif yn aelodau annibynnol) a chynhelir gwrandawiad i geisiadau gan gynghorwyr tref/cymuned gan aelodau annibynnol ac aelodau cyngor tref/cymuned (gyda'r mwyafrif yn aelodau annibynnol).

## 3. CEISIADAU A WNAED ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF

3.1 Gwrandawiad o'r Panel Caniatâd Arbennig ar 30 Ebrill 2026

3.1.1 Gofynnwyd i Banel Caniatâd Arbennig ystyried cais gan y Cynghorydd Rhian Aledwen Jones, aelod o Gyngor Tref Biwmares.

3.1.2 Mae hysbysiad o benderfyniad y Panel Caniatâd Arbennig ynghlwm yn **Atodiad 1**. Gellir gweld cofnodion y cyfarfod yma - Gwrandawiad Panel Caniatâd Arbennig

3.1.3 Penderfynodd y Panel roi caniatâd arbennig i'r Cynghorydd Jones o dan y telerau canlynol sydd yn caniatáu i'r Cynghorydd:

- ysgrifennu at swyddogion a/neu'r Pwyllgor/Cyngor Tref ynglŷn â'r mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor Tref ynglŷn â'r mater ar yr amod nad ydych yn siarad â swyddogion am fusnesau unigol penodol a weithredir gan y bobl y mae gennych gysylltiad teuluol â hwy; ac
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais ar y mater;

- Daw'r caniatâd arbennig i ben 12 mis o ddyddiad y penderfyniad hwn.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi'r diweddariad.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O GYNGOR TREF/CYMUNED

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | **I ddyfarnu Caniatâd Arbennig** yn ôl y telerau a nodir isod mewn perthynas â'r Cais a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rhian Jones dyddiedig 9 Mawrth 2026 a'r Gwrandawiad dyddiedig 30 Ebrill 2026. |
| **Dyddiad y gwnaed y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:** | 30 Ebrill 2026 |
| **Enwau'r unigolion fydd yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | Y Cynghorydd Rhian Jones<br>Eraill: Gwasanaeth Pwyllgorau Aelodau'r Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad mae'r caniatâd arbennig yn dod i ben:** | Ar ôl 12 mis o dyddiad y penderfyniad hwn. |

Yn unol â pharagraffau (d) ac (f) o Reoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatadau Arbennig) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Caniatadau Arbennig ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu **rhoi caniatâd arbennig** i'r **Cynghorydd Rhian Jones** mewn perthynas â'r buddiannau hynny y cyfeirir atynt yn y Cais dyddiedig 9 Mawrth 2026, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- ysgrifennu at swyddogion a/neu'r Pwyllgor/Cyngor Tref am y mater;
- siarad â swyddogion y Cyngor Tref ynglyn â'r mater ar yr amod nad ydych yn siarad â swyddogion am fusnesau unigol penodol a weithredir gan y bobl y mae gennych gysylltiad teuluol â hwy; ac
- aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais ar y mater.

Cyn i'r Cynghorydd siarad neu ysgrifennu at Swyddog o'r Cyngor, neu aros yn yr ystafell yn ystod trafodaeth/pleidlais ar y mater, rhaid i'r Cynghorydd:

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- chadarnhau ei bod wedi derbyn caniatâd yn amodol ar y cyfyngiadau uchod; a
- chwblhau hysbysiad ysgrifenedig i'r clerc yn amlinellu'r diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Yn ôl awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad: 30 Ebrill 2026

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2025-26** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Bod y Pwyllgor Safonau yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol drafft ac yn cytuno i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)**<br>**lisalord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gofyn statudol ar y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn.

1.2 Paratowyd adroddiad drafft ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

1.3 Cyhoeddwyd canllawiau statudol o dan adran 54(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r canllawiau statudol wedi cael eu hystyried wrth ddrafftio'r adroddiad. Mae'r adroddiad drafft yn roi sylw i'r holl faterion a bennir yn y ddeddfwriaeth, ac eithrio gwybodaeth ynglŷn â'r ddyletswydd Arweinyddion Grwpiau. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hychwanegu ar ôl cynnal cyfarfodydd unigol rhwng Aelodau Annibynnol (lleyg) y Pwyllgor ac Arweinyddion Grwpiau, fel y nodir yn yr adroddiad.

1.4 Rhagwelir y bydd yr adroddiad terfynol, gan gynnwys asesiad o'r ddyletswydd Arweinyddion Grwpiau, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2026.

## 2. ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor Safonau yn cytuno

i. ar gynnwys yr adroddiad blynyddol drafft a'r atodiadau
ii. bod yr adroddiad yn cael ei ddiweddaru yn unol â gwybodaeth a gasglwyd a'r asesiad a luniwyd yn ystod y cyfarfodydd ag Arweinyddion Grwpiau unigol. Bydd geiriad unrhyw ddiweddariad o'r fath yn cael ei gytuno â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau
iii. bod unrhyw newidiadau pellach yn cael eu gwneud yn unol â chyfarwyddiadau'r Cadeirydd, ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro
iv. bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2026

**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**

## 1. Rhagair / Gair gan y Cadeirydd

Croeso i adroddiad blynyddol Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y cyfnod Ebrill 2025 - Mawrth 2026, a gwblhawyd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae gan y Pwyllgor rôl annibynnol i gefnogi llywodraethiant moesegol gan ganolbwyntio'n benodol ar fodloni'r gofyniad statudol i hybu a chynnal safon dda o ymddygiad ymhlith Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned Ynys Môn. Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn.

Mae asesiad cyffredinol y Pwyllgor yn gadarnhaol.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Pwyllgor wedi poeni am yr amser a gymerir i ddatrys cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Mae'r Pwyllgor Safonau'n falch o glywed bod OGCC wedi cyhoeddi y bydd camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r oedi. Bydd y Pwyllgor yn cadw llygaid ar effaith y cwynion sy'n cael eu datrys.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Pwyllgor ei wrandawiad cyntaf i achos honedig o dorri'r cod ymddygiad i gynghorwyr ers 2014.

Gwnaed newidiadau i'r Cod Ymddygiad yn ogystal i sicrhau ei fod yn ymdrin â'r holl nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a ffactorau economaidd-gymdeithasol. Byddwn yn gweld effaith y newidiadau hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gefnogi Cynghorwyr i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac mae o'r farn bod hyfforddiant yn rhan allweddol o ddatblygu llywodraethiant moesegol cadarn. Gobeithir y bydd ymdrechion y Pwyllgor yn sicrhau bod gofynion y Cod yn glir ymysg aelodau, ac y bydd hyn o gymorth iddynt wrth weithio er budd yr ardal a'i dinasyddion.

Yn ystod y flwyddyn daeth cyfnod Mr John Robert Jones yn y swydd i ben. Hoffwn ddiolch i Mr Jones am ei gyfraniad a'i ymroddiad i'r Pwyllgor.

Ym mis Rhagfyr 2025, yn dilyn proses gystadleuol roeddem yn falch o groesawu Mr David Davies i'r Pwyllgor fel Aelod (lleyg) Annibynnol.

Hoffwn ddiolch i aelodau etholedig, cyfetholedig a lleyg y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned, Swyddogion a Swyddogion Pwyllgor am eu cydweithrediad yn gysylltiedig â materion ymddygiad eto eleni.

Gobeithiaf y bydd gwaith y pwyllgor, a'r adroddiad hwn, o ddiddordeb i chi. Mae gwybodaeth bellach am y pwyllgor, yn cynnwys agendau, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor.

**Trefor Owen**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

---

## 2. Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Safonau

Mae gofyn statudol ar bob Cyngor Sir i gael Pwyllgor Safonau.

Gellir crynhoi swyddogaethau cyffredinol y Pwyllgor Safonau fel dyletswydd i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig y Cyngor Sir a Cynghorau Tref a Chymuned a'u cynorthwyo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn gweithio'n agos â'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn adroddiadau chwarterol ar achosion Cod Ymddygiad OGCC ac mae'n delio â chyfeiriadau gan OGCC.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n darparu sicrwydd annibynnol i'r Cyngor drwy ei adroddiad blynyddol.

---

## 3. Aelodaeth y Pwyllgor a Chyfarfodydd

Mae'r Pwyllgor Safonau yn Bwyllgor statudol sydd â 9 aelod, yn cynnwys Aelodau Annibynnol, Cynghorwyr Tref a Chymuned a Chynghorwyr Sir.

**Aelodau Presennol**

**Aelodau Annibynnol**

- Mr Trefor Owen (Cadeirydd/Chair)
- Mr Brace Griffiths (Is-gadeirydd/Vice-Chair)
- Mr Rhys Davies
- Mr David Davies (ers 12 Rhagfyr 2025)
- Mrs Gill Murgatroyd

**Cynghorwyr Cymuned**

- Y Cynghorydd Iorwerth Roberts
- Y Cynghorydd Margaret Thomas

**Cynghorwyr Sir**

- Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts
- Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

*Daeth cyfnod Mr John Robert Jones yn y swydd i ben ym mis Rhagfyr 2025.

Mae gwybodaeth bellach am y Pwyllgor Safonau ar gael ar wefan y Cyngor. Mae disgrifiad ysgrifenedig o rôl Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a rôl Aelodau'r Pwyllgor Safonau ar gael.

**Cyfarfodydd**

Cynhaliwyd y cyfarfodydd canlynol:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Safonau | 2 |
| Panel Caniatâd Arbennig. | 2 |
| Gwrandawiad Lleol o'r Pwyllgor Safonau | 1 |
| Pwyllgor Anffurfiol | 2 |

Penododd y Cyngor aelod (lleyg) annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn, sef Mr David Davies. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o Banel Dethol y Pwyllgor Safonau fel rhan o'r broses hon. Mae'r Pwyllgor Safonau'n ddiolchgar i'r Cynghorydd Margaret Murley Robert, y Cynghorydd Aled Morris Jones, y Cynghorydd Dylan Rees, Mrs Ann Kennedy a Dr Teleri Mair Jones am gymryd rhan yn y broses.

---

**4. Cefnogaeth gan y Swyddog Monitro a'r Trefniadau**

Mae'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau. Yn ogystal â'r cyfarfodydd Pwyllgor cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Mae gan y Swyddog Monitro adnoddau digonol i gyflawni'r Rhaglen Waith gytunedig. Os bydd cynnydd mewn gwrandawiadau lleol neu gyfrifoldebau'r Swyddog Monitro bydd rhaid adolygu'r adnoddau.

Yn ogystal â'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro mae'r gwaith o hyrwyddo'r Cod Ymddygiad a'r fframwaith llywodraethu moesegol yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn cael ei gefnogi gan lu o wasanaethau yn cynnwys y Gwasanaethau Democrataidd/Pwyllgorau a'r Gwasanaeth Hyfforddi a Datblygu.

---

## 5. Cwynion Cod Ymddygiad

| Crynodeb o Gwynion Cod Ymddygiad OGCC 2025/26 | | |
|---|---|---|
| | **Cyngor Sir** | **Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **Cwynion a dderbyniwyd** | 0* | 14 |
| **Dim camau / ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn** | 0 | 7<br>(aros am benderfyniad cychwynnol yn gysylltiedig â 7 cwyn ar 31 Mawrth 2026) |
| **Ymchwiliad** | 0 | 0 (ar 31 Mawrth 2026) |
| **Gwrandawiad** | 0** | 0 (ar 31 Mawrth 2026) |

*Mae un gŵyn yn gysylltiedig ag aelod o'r Cyngor Sir y daeth y Cyngor yn ymwybodol ohoni gyntaf y tu allan i'r cyfnod adrodd (8 Chwefror 2024) ac mae OGCC yn dal i ymchwilio i'r gŵyn.

**Cynhaliwyd gwrandawid yn ystod y cyfnod adrodd, ar 16 Mai 2025, yn gysylltiedig ag aelod o'r Cyngor Sir, ynglŷn â mater y daeth y Cyngor yn ymwybodol ohono gyntaf y tu allan i'r cyfnod adrodd (9 Awst 2023).

Derbyniwyd llai o gwynion Cod Ymddygiad yn gysylltiedig â Chynghorwyr Sir (4 y llynedd) a chynnydd sylweddol mewn cwynion Cod Ymddygiad yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned (4 y llynedd). Roeddem yn dal i aros am benderfyniad cychwynnol ynglyn â'r 7 cwyn Cod Ymddygiad ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Yn unol ag ymrwymiad y Pwyllgor i fod yn rhagweithiol, bydd yn edrych ar y tueddiadau ac unrhyw resymau dros y cynnydd mewn cwynion Cod Ymddygiad yn gysylltiedig â Chynghorwyr Tref a Chymuned unwaith y mae OGCC wedi cwblhau unrhyw gamau gweithredu.

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau gan Banel Dyfarnu Cymru.

## 6. Gwrandawiadau a Phenderfyniadau

Cynhaliwyd un gwrandawid yn ystod y cyfnod adrodd, ar 16 Mai 2025, yn gysylltiedig ag aelod o'r Cyngor Sir.

Roedd y gwrandawiad yn ymwneud â mater a ddaeth i sylw'r Cyngor ar 9 Awst 2023 gan OGCC.

Mae'r adroddiad a'r cofnodion yn gysylltiedig â'r gwrandawiad hwn wedi cael eu cyhoeddi.

Nid oedd unrhyw apêl ac mae'r Pwyllgor Safonau'n hapus bod y camau a godwyd yn ystod y cyfarfod wedi cael eu gweithredu'n foddhaol.

---

**7. Cyflawniadau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn**

Mae Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025-26, sy'n nodi'r camau a gwblhawyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn erbyn ei amcanion , ar gael yn **ATODIAD 1**.

Tynnir sylw penodol at y materion a ganlyn:

**Protocol Datrysiad Lleol**

Canolbwyntiwyd ar weithredu'r Protocol Datrysiad Lleol (PDLl) mewn Cynghorau Tref a Chymuned. Mynychodd cynrychiolwyr o'r Pwyllgor nifer o sesiynau a gweithdai a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y sesiynau hyn y cynnwys Clercod Cynghorau Tref a Chymuned, Cadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned, Swyddogion Monitro, OGCC, cynrychiolwyr Pwyllgor Safonau, cynrychiolwyr Polisi Llywodraeth Cymru, Un Llais Cymru a chynrychiolwyr eraill o'r sector. Mae sesiynau pellach ar y gweill a bydd y Pwyllgor yn parhau i gyfrannu at y datblygiadau hyn lle bo modd.

Yn ystod y cyfnod adrodd, er bod y Cadeirydd wedi cael gwybod am bryderon ynglyn ag Aelodau, ni dderbyniwyd cais i weithredu dan drefniadau'r Protocol. Ymdriniwyd â'r pryderon lefel isel ynglŷn ag ymddygiad aelodau'n fewnol drwy brosesau grwpiau gwleidyddol.

Sefydlwyd proses ar gyfer cyflwyno adroddiadau ystadegol dienw ar faterion a gafodd eu datrys gan ddefnyddio'r PDLl.

**Cyngor ar hyfforddiant i Aelodau ac Arweinwyr Grwpiau**

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn gysylltiedig â'r hyfforddiant sydd ar gael i Aelodau ac Arweinwyr Grŵp.

Mae hyfforddiant mandadol yn cael ei ddynodi gan Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac yn cael ei fonitro gan y pwyllgor. Mae'r Arweinwyr Grŵp yn derbyn adroddiadau yn ôl yr angen.

| | |
|---|---|
| Cod Ymddygiad | 35/35 |
| Iechyd a Diogelwch | 33/35 |

| | |
|---|---|
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. | 34/35 |
| Diogelu Data | 33/35 |
| Seiberddiogelwch | 35/35 |
| Diogelu | 29/35 |

Mae'r hyfforddiant Diogelu i aelodau etholedig wedi cael ei adolygu yn unol â safonau fframwaith hyfforddi Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae cynnydd da wedi cael ei wneud ar y cynllun datblygu ar gyfer Arweinwyr Grŵp.

**Gwaith gyda Chynghorau Tref a Chymuned**

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ceisio ymgysylltu â'r Cynghorau Tref a Chymuned yn gysylltiedig â'r hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Yn ystod 2025, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi drwy Un Llais Cymru, ac roeddent ar gael i Gynghorwyr Tref a Chymuned a chlercod. Roedd 80 o leoedd ar gael. Fe wnaeth 66 o bobl archebu lle, a mynychwyd yr hyfforddiant gan 48 o bobl. Mae 40 Cyngor Tref a Chymuned ar Ynys Môn. Ni fynychodd unrhyw aelodau na chlercod o 21 Cyngor Tref a Chymuned y sesiynau hyfforddi hyn.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cynghorau Tref a Chymuned ystyried newid eu cod ymddygiad fel bod rhaid i aelodau fynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad unwaith y tymor o leiaf, ac o fewn chwe mis i etholiad llywodraeth leol lle bo modd.

Gofynnodd y Pwyllgor Safonau am gopi o adroddiad blynyddol a chynllun hyfforddi pob Cyngor Tref a Chymuned.

Mae arsylwadau/ymweliadau i Gynghorau Tref a Chymuned wedi cael ei ychwanegu i'r Rhaglen Waith ar gyfer 2026-27. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad y Pwyllgor safonau i wneud gwaith rhagweithiol ac ataliol yn unol â chylch gorchwyl statudol y Pwyllgor.

Mae'r Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn mynychu a chyflwyno yng Nghyfarfodydd y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.

**Caniatâd Arbennig**

Cynhaliwyd dau Banel Caniatâd Arbennig yn 2025-26. Rhoddwyd caniatâd arbennig yn y naill agos.

Mae'r adroddiad a'r cofnodion yn gysylltiedig â'r cyfarfodydd hyn wedi cael eu cyhoeddi.

**Cyfathrebu**

Mae'r Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd yr Arweinwyr Grŵp yn rheolaidd er mwyn eu briffio, ymgynghori â hwy a gofyn am adborth yn ôl y galw. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Arweinwyr Grŵp am hwyluso'r trefniadau hyn.

Anfonir crynodeb o benderfyniadau'r pwyllgor, ynghyd â linc i adroddiadau a phenderfyniadau OGCC, at aelodau yn dilyn cyfarfodydd. Anfonir crynodeb tebyg ar faterion sy'n berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned at Gadeiryddion a Chlercod yn dilyn cyfarfodydd.

**Hyfforddiant**

Mae'r Pwyllgor yn gefnogol o hyfforddiant a chyfleoedd datblygu sy'n cefnogi llywodraethiant moesegol. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn cael ei amlygu drwy gynnwys adroddiad gan y gwasanaeth Hyfforddi a Datblygu fel eitem sefydlog ym mhob cyfarfod. Mae hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gael i Gynghorwyr newydd ac Aelodau (lleyg) Annibynnol newydd.

---

**8. Asesu Dyletswyddau'r Arweinwyr Grŵp**

**I'w ychwanegu yn dilyn cyfarfod yr aelodau Annibynnol gydag Arweinwyr Grŵp**

---

**9. Y Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn Nesaf**

Mae Rhaglen Waith arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2026-2027 ar gael yn **ATODIAD 2**.

Bydd y Pwyllgor, wrth gwrs, yn blaenoriaethu ei waith ac yn cyfeirio ei adnoddau i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni ei ofynion statudol a bydd yn parhau i gefnogi aelodau'r Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned i gydymffurfio â gofynion y Cod Ymddygiad.

---

# Rhaglen Waith Arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/2026

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor Llawn | • Fod y Pwyllgor yn dechrau ystyried a gweithio ar yr Adroddiad Blynyddol cyn ei gyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2026.<br>• Fod y Pwyllgor yn datblygu ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2025/2026 (a'r cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2026/2027) ar ddiwedd tymor 2025/2026.<br>• Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Arweinyddion Grŵp mewn perthynas â'u cyfrifoldebau adrodd dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r broses i'w dilyn rhwng Arweinyddion Grŵp a'r Pwyllgor Safonau. | • Cwblhawyd<br>• Adroddiad i'r Cyngor llawn 25/09/2025<br>• Copi wedi'i anfon at OGCC |
| 2 | Gweithredu'r Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned | • Pan fo'n ofynnol / yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. | • Dim galw amdano yn 2025/26 |
| 3 | Cynnig a darparu hyfforddiant sydd ar gael i arweinwyr pleidiau gwleidyddol Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Safonau<br>• Cynnwys Uwch Swyddogion? | • Rhaid gwneud y trefniadau hyn ar ddechrau bob gweinyddiaeth a rhaid cynnal hyfforddiant cyn pen 6 mis o'r etholiad, a rhaid ei adolygu'n flynyddol.<br>• • Bydd y Pwyllgor Safonau'n annog Arweinyddion Grŵp i gwblhau hyfforddiant a ddatblygir dan sgôp Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol a/neu drwy'r CLlLG.<br>• Yn lleol, bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau i weithio gyda'r adran Hyfforddiant (AD) i drefnu Hyfforddiant 1-1 ar gyfer Arweinyddion Grŵp er mwyn eu cefnogi gyda'u rolau fel arweinwyr statudol ar faterion sy'n cael eu hystyried yn berthnasol ar gyfer Arweinyddion Grŵp lleol. | • Cwblhawyd<br>• Wedi'i gynnig a'i dderbyn<br>• Adroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Pwyllgor Safonau |
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinyddion pleidiau gwleidyddol gan gynnwys mewn perthynas â dyletswydd arweinyddion grŵp | • Cadeirydd ac Is-gadeirydd i adrodd mewn cyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau yn dilyn bob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau.<br>• Adrodd / cyfathrebu pellach i'w wneud ar gais.<br>• Unrhyw waith sydd ei angen fel rhan o ddyletswydd y Pwyllgor | • Cwblhawyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dros ymddygiad eu haelodau | Safonau i asesu a ddylid rhyddhau arweinyddion grŵp o'u dyletswyddau statudol. | |
| 5 | Cyfathrebu gydag aelodau CSYM / Cynghorau Tref a Chymuned | • Yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor. Cytuno sut i gyfathrebu negeseuon allweddol orau. | • Anfonir nodiadau briffio at aelodau CSYM a Chynghorau Tref a Chymuned yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau |
| 6 | Cyfarfodydd | • Cyfarch y gofyn statudol o gynnal un cyfarfod ffurfiol yn flynyddol. Mae wedi bod yn arferol cynnal 2 gyfarfod ffurfiol.<br>• Efallai y trefnir cyfarfodydd anffurfiol pan fo'n ofynnol. | • Cwblhawyd fel y manylir yn yr Adroddiad Blynyddol |
| 7 | Adrodd am gwynion - Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | • Bydd adroddiadau'n cael eu cynnwys yn Agenda ffurfiol y Pwyllgor.<br>• Mae adroddiad y Pwyllgor Safonau'n trafod unrhyw dueddiadau penodol o ran ymddygiad gwael. Angen parhau i adolygu hyn a sicrhau bod y broses yn gwarchod a pharchu (unrhyw rai o) ofynion cyfrinachedd yr OGCC mewn perthynas â'r materion hyn. | • Cwblhawyd |
| 8 | Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | • Annog holl aelodau'r Pwyllgor Safonau i gwblhau'r holl hyfforddiant mandadol.<br>• Trefnu unrhyw hyfforddiant arall sy'n ofynnol, mewn ymgynghoriad gyda Rheolwr Hyfforddiant AD. | • |
| 9 | Hyfforddiant Cadeirio - Herio Ymddygiad | • Cadeirydd / Is-gadeirydd i fynychu hyfforddiant sy'n cael ei drefnu drwy'r Rheolwr Hyfforddiant AD ar ddelio gydag ymddygiad heriol gan aelodau a/neu'r cyhoedd. | • |
| 10 | Sut i wneud cwyn | • Ystyried sut i roi cyhoeddusrwydd i gwynion yn erbyn Aelodau unwaith y cytunir beth fydd y broses ar gyfer 'cwynion lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adolygiad Penn. | • Mae hyn wedi'i ychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer 26/27 |
| 11 | Caniatadau Arbennig | • Pan fydd ceisiadau'n codi. | • Wedi'i gwblhau yn ôl y galw – fel y manylir yn yr Adroddiad Blynyddol. |
| 12 | Adroddiadau Blynyddol Aelodau | • Bydd y Pwyllgor Safonau yn parhau i annog y weithred o gwblhau Adroddiadau Blynyddol a gweithio gyda Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r | • Gwybodaeth wedi'i gynnwys mewn nodyn briffio i aelodau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mater hwn, gan gofio mai dewis bob Cynghorydd unigol yw cwblhau adroddiad blynyddol ai peidio. | |
| 13 | Cynghorau Tref a Chymuned | • Bydd Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd yn mynychu Cyfarfodydd Fforwm rheolaidd i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i Gynghorau Tref a Chymuned. | • |
| 14 | Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol | • Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm a chynnig adborth i aelodau'r Pwyllgor Safonau. | • Cwblhawyd |
| 15 | OGCC a PDC yn adrodd ar achosion Darparu dolenni ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau. | • Darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau yn cyfeirio at yr achosion a gyhoeddwyd gan yr OGCC a PDC. | • Cwblhawyd |
| 16 | Adroddiad Penn / ymgynghoriad LIC ar faterion moesegol | • Mae'r adroddiad Penn wedi'i gyhoeddi. Ymgynghoriad LIC wedi dod i ben 23.06.2023.<br>• Ymatebion i'r Ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan LIC ym mis Tachwedd 2023.<br>• Angen gwaith pellach pan mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi. Dim amserlen gyhoeddus ar hyn o bryd. | • Dim amserlen ar gyfer camau pellach gan y Llywodraeth.<br>• Ni dderbyniwyd gwybodaeth bellach. |
| 17 | Trafodaethau Blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | • Bydd y Cadeirydd yn cwrdd ag Aelodau ac yn adrodd ar unrhyw allbynnau sydd angen eu cyfeirio i'r Swyddog Monitro.<br>• Bydd y Cadeirydd yn cael sgwrs gyda'r Swyddog Monitro. | • |
| 18 | Goruchwylio'r Cyngor a chyfarfodydd ei Bwyllgorau o bryd i'w gilydd. | • Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn goruchwylio cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau os bydd angen, a bydd hefyd yn darparu adborth i'r Cadeirydd perthnasol. | • |
| 19 | Cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo annog llesiant aelodau'r Cyngor Sir. | • Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo arwain ar y gwaith hwn. | • Mae'r Pennaeth Democratiaeth yn cyflwyno adroddiad i bob Pwyllgor Safonau |
| 20 | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch - cynyddu gwerth y gofrestr i £25. | • Yn dilyn trafodaeth ar lefel genedlaethol yn Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol Cymru i safoni'r trothwy ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch ym mhob un | • Oherwydd capasiti nid yw hyn wedi cael ei gwblhau o fewn y cyfnod adrodd ond bydd yn cael ei |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | o'r awdurdodau yng Nghymru, cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor ym mis Medi 2023, y byddai'r trothwy arfaethedig o £25 yn cael ei weithredu yn yr awdurdod hwn, yn hytrach na'r cyfyngiad £20 presennol. Fodd bynnag, mae angen newid Cyfansoddiad y Cyngor cyn y gellir rhoi'r trothwy newydd ar waith. Gwnaed argymhelliad y dylid cynnwys yr argymhelliad hwn wrth gyflwyno'r adroddiad priodol nesaf i'r Pwyllgor Gwaith / y Cyngor llawn. Nid oes cyfle o'r fath wedi codi hyd yma. Dyma yw bwriad y Pwyllgor. | gynnwys ar raglen waith 26/27 |
| 21 | Mynediad at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar y Cyngor Sir | • Cafodd y mater ei gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 a 2024/2025 ond, oherwydd ymrwymiadau gwaith eraill, ni weithredwyd arno.<br>• Mae'r wefan yn cael ei datblygu'n helaeth, a byddai'n amserol cymryd camau er mwyn sicrhau bod mynediad rhwydd ar gael at wybodaeth am y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor. | • Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn gyfredol. Wedi'i ychwanegu at raglen waith 26/27 er mwyn ei adolygu. |
| 23 | Ymateb i geisiadau a wnaed mewn perthynas ag archwiliadau sy'n mynd rhagddynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir / Cynghorwyr Cymuned. | • Mae 1 achos wedi'i gyfeirio gan OGCC i'r Pwyllgor Safonau i'w ystyried. Bydd y Gwrandawiad yn cael ei drefnu yn ystod cyfnod adrodd 2025/2026.<br>• Mae OGCC yn archwilio cwynion mewn perthynas ag 1 Cynghorydd Sir ac 1 Cynghorydd Cymunedol ar hyn o bryd.<br>• Cymryd unrhyw gamau adferol mewn perthynas â'r materion hyn ac unrhyw faterion eraill all godi yn ystod y flwyddyn. | • Cwblhawyd y gwrandawiad – fel y manylir yn yr Adroddiad Blynyddol. |
| 24 | Materion yn deillio o drafodaethau gydag Arweinyddion Grŵp wrth baratoi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor llawn. | • Canlyniad cyfarfodydd:<br>Materion i'w gweithredu:<br>  ◦ Gohebiaeth gyffredinol mewn perthynas â phroses 2024/2025 i'w hanfon at Arweinyddion Grwpiau (os oes angen). | • Cwblhawyd |

# Rhaglen Waith Arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2026/2027

| Rhif | Eitemau | Allbwn | Camau |
|---|---|---|---|
| **EITEMAU AGENDA SEFYDLOG** | | | |
| 1. | Cyfarfodydd. | ▪ Bodloni gofynion statudol - cynnal o leiaf 1 cyfarfod bob blwyddyn<br>▪ Cynnal digon o gyfarfodydd ffurfiol fel sy'n ofynnol ar gyfer busnes y Pwyllgor (2 gyfarfod yn unol â'r arfer).<br>▪ Efallai y trefnir cyfarfodydd anffurfiol pan fo'n ofynnol. | |
| 2. | Adrodd am gwynion - Adroddiadau Diweddaru Chwarterol. | ▪ Adrodd i'r Pwyllgor Safonau.<br>▪ Dadansoddi tueddiadau (cyn belled a bo modd gwneud hyn tra'n cynnal gofynion cyfrinachol OGCC a'r Ddeddf Diogelu Data). | |
| 3. | Adrodd am Achosion OGCC (Cymru gyfan). | ▪ Adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor Safonau. | |
| 4. | Adrodd am Achosion Panel Dyfarnu Cymru (Cymru gyfan). | ▪ Adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor Safonau. | |
| 5. | Caniatadau Arbennig. | ▪ Adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor Safonau. | |
| | | | |
| 6. | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cyngor Llawn. | ▪ Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2025/26.<br>▪ Cyfarfodydd Arweinyddion Grŵp mewn perthynas â'u cyfrifoldebau adrodd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r broses i'w dilyn rhwng Arweinyddion Grŵp a'r Pwyllgor Safonau.<br>▪ Adrodd i'r Pwyllgor Safonau.<br>▪ Adroddiad i'r Cyngor Llawn.<br>▪ Anfonwyd copi i'r OGCC. | |
| 7. | Adroddiadau Blynyddol Aelodau. | ▪ Annog yr arfer o gwblhau Adroddiadau Blynyddol.<br>▪ Cefnogi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8. | Trafodaethau Blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau. | ▪ Bydd y Cadeirydd yn cwrdd ag Aelodau ac yn adrodd ar unrhyw allbynnau sydd angen eu cyfeirio i'r Swyddog Monitro.<br>▪ Bydd y Cadeirydd yn cael sgwrs gyda'r Swyddog Monitro. | |
| | | ▪ | |
| **HYFFORDDI** | | | |
| 9. | Monitro ac adolygu'r cynnig a darpariaeth hyfforddiant sydd ar gael i arweinwyr pleidiau gwleidyddol. | ▪ Rhaid gwneud y trefniadau hyn ar ddechrau pob gweinyddiaeth a rhaid cynnal hyfforddiant cyn pen 6 mis o'r etholiad, a rhaid ei adolygu'n flynyddol. | |
| 10. | Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau. | ▪ Annog holl aelodau'r Pwyllgor Safonau i gwblhau'r holl hyfforddiant mandadol.<br>▪ Trefnu unrhyw hyfforddiant arall sy'n ofynnol, mewn ymgynghoriad gyda Rheolwr Hyfforddiant AD. | |
| 11. | Hyfforddiant Cadeirio - Herio Ymddygiad. | ▪ Cadeirydd / Is-gadeirydd i fynychu hyfforddiant sy'n cael ei drefnu drwy'r Rheolwr Hyfforddiant AD ar ddelio gydag ymddygiad heriol gan aelodau a/neu'r cyhoedd. | |
| **CYFATHREBU A RHANNU GWYBODAETH** | | | |
| 12. | Sut i Wneud Cwyn. | ▪ Pwyllgor i adolygu gwybodaeth gyhoeddus ar 'sut i wneud cwyn'. | |
| 13. | Cyfathrebu gydag arweinyddion pleidiau gwleidyddol gan gynnwys mewn perthynas â dyletswydd arweinyddion grŵp dros ymddygiad eu haelodau. | ▪ Cadeirydd i gwrdd ag Arweinyddion Grŵp ar ôl bob cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ac ar adegau eraill, fel sy'n ofynnol. | |
| 14. | Cyfathrebu gydag aelodau CSYM / Cynghorau Tref a Chymuned. | ▪ Dosbarthu'r crynodeb yn dilyn bob Pwyllgor Safonau. | |
| **FFORYMAU** | | | |
| 15. | Cynghorau Tref a Chymuned. | ▪ Rhaid i'r Cadeirydd a/neu'r Is-gadeirydd fynychu Cyfarfodydd Fforwm i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i Gynghorau Tref a Chymuned. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16. | Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol. | ▪ Cadeirydd i fynychu cyfarfodydd y Fforwm a chynnig adborth i aelodau'r Pwyllgor Safonau. | |
| **PAN FO'N OFYNNOL** | | | |
| 17. | Ymateb i geisiadau a wnaed mewn perthynas ag archwiliadau sy'n mynd rhagddynt gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ganlyniad i gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir / Cynghorwyr Cymuned. | ▪ Cymryd unrhyw gamau gofynnol mewn perthynas â materion OGCC wrth iddynt godi yn ystod y flwyddyn. | |
| 18. | Paneli Caniatadau Arbennig. | ▪ Pan fydd ceisiadau'n codi. | |
| 19. | Gweithredu'r Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. | ▪ Pan fo'n ofynnol / yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. | |
| 20. | Goruchwylio'r Cyngor a chyfarfodydd ei Bwyllgorau o bryd i'w gilydd. | ▪ Mynychu cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau er mwyn cefnogi'r cylch gorchwyl a cheisio hyrwyddo'r ymddygiad gorau posibl.<br>▪ Darparu adborth, lle bo'n briodol, i Gadeirydd y Pwyllgor.<br>▪ Adroddiad dienw i'r Pwyllgor Safonau. | |
| **GWAITH SYDD AR Y GWEILL** | | | |
| 21. | Adroddiad Penn / ymgynghoriad LIC ar faterion moesegol. | ▪ Monitro ac olrhain fel sy'n ofynnol. | |
| 22. | Goruchwylio cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned o bryd i'w gilydd. | ▪ Mynychu cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned i oruchwylio i gefnogi'r cylch gorchwyl a cheisio hyrwyddo'r ymddygiad gorau posibl.<br>▪ Darparu adborth i'r Cadeirydd a/neu'r Clerc lle bo'n briodol.<br>▪ Adroddiad dienw i'r Pwyllgor Safonau. | ▪ |
| 23. | Cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo annog llesiant aelodau'r Cyngor Sir. | ▪ Cefnogi'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. | • |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24. | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch - cynyddu gwerth y gofrestr i £25. | ▪ Adrodd i'r Pwyllgor Gwaith (ymgynghoriad).<br>▪ Adroddiad i'r Cyngor. | |
| 25. | Adolygu ffurflenni a chanllawiau recriwtio Aelodau Annibynnol | ▪ Adolygu ffurflenni recriwtio Aelodau Annibynnol i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol yn gysylltiedig â'r meini prawf cymhwystra | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mehefin 2026** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Ymweliadau/arsylwi Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I'r Pwyllgor gytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer arsylwi/ymweld â Chynghorau Tref a Chymuned** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lisa Lord**<br>**Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Swyddog Monitro (Locwm)**<br>**lisalord@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fod trafodaethau'n mynd rhagddynt mewn perthynas ag ailddechrau amserlen o ymweliadau i Gynghorau Tref a Chymuned i weld y Cod Ymddygiad ar waith mewn cyfarfodydd y Cynghorau Tref a Chymuned hynny. Mae'r gwaith wedi ei adnabod fel rhan o ddull rhagweithiol y Pwyllgor i hyrwyddo a chefnogi ymddygiad o safon mewn Cynghorau Tref a Chymuned yn yr ardal.

1.2 Ymhlith y ffynonellau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i Gynghorau Tref a Chymuned mae

- Un Llais Cymru - y corff cenedlaethol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru
- Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol - corff proffesiynol ar gyfer clercod cynghorau lleol ac uwch weithwyr y cyngor

1.3 Yn ychwanegol, mae'r Cyngor yn cynnal Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned. Mae'r Fforwm yn gyfarfod rheolaidd a gynhelir gan y Cyngor Sir, gyda phobl yn mynychu o bell ac yn yr ystafell. Mae agenda'r cyfarfod yn amrywio gyda Gwasanaethau'r Cyngor yn cyflwyno materion sy'n berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned. Mae Cadeirydd a/neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau'n bresennol ac yn rhoi cyflwyniad yn rhai cyfarfodydd Fforwm.

1.4 Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi fod Adolygiad Cymunedol ar waith mewn perthynas â'r 40 cymuned yn Ynys Môn, gyda Chyngor Tref neu Gymuned yn gwasanaethu pob un. Diben yr adolygiad yw sicrhau bod trefniadau etholiadol ar gyfer bob Cyngor Tref a Chymuned yn darparu llywodraeth leol effeithiol. Mae manylion y camau gwahanol o fewn yr Adolygiad Cymunedol wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Adolygiadau Cymunedol

## 2. Y CAMAU NESAF

2.1Mae aelodau annibynnol (lleyg) y Pwyllgor Safonau wedi adolygu gwefan pob Cyngor Tref a Chymuned. Cwblhawyd y dasg i helpu i flaenoriaethu ymweliadau i Gynghorau Tref a Chymuned.

2.2 Yn ychwanegol i'r gwaith a wnaed gan yr aelodau annibynnol (lleyg), paratowyd taenlen i gefnogi'r Pwyllgor i flaenoriaethu ymweliadau. Mae copi o'r daenlen ar gael yn Atodiad 1.

## 3. ARGYMHELLIAD

i. Nodi'r adroddiad.
ii. Defnyddio Atodiad 1 i flaenoriaethu arsylwadau.

# ATODIAD / ENCLOSURE 1

| **Ward** | **Rhif / No.** | **Cyngor Tref a Chymuned /** ***Town and Community Council*** **(Cynghorau Tref mewn print trwm / Town Councils in bold print)** | **Nifer o gwynion Côd Ymddygiad ers 04/2025 /** ***Number of Code of Conduct Complaints since 04/2025*** | **Precept 2026/2027** | **Ymatebion i ohebiaeth gan y Pwyllgor Safonau ers 04/2024 /** ***Responses to correspondence from the Standards Committee since April 2024*** | **Hyfforddiant ers 2024 /** ***Training since 2024*** | **Trefniadau Llywodraethu /** ***Governance Arrangements (Dewis o'r rhestr ostwng isod: Da / Digonol / Gwael Select from drop down list below : Good / Adequate / Poor)*** | **Monitor** | **Monitorau / Monitors** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aethwy** | 1 | Llanfairpwll | 0 | £ 132,000.00 | | 3 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 2 | Penmynydd | 0 | £ 10,800.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 3 | **Porthaethwy / Menai Bridge** | 0 | £ 150,000.00 | | 3 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Bodowyr** | 4 | Llanddaniel Fab | 0 | £ 17,124.00 | ✓ | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 5 | Llanfihangel Esceifiog | 0 | £ 26,250.00 | | 3 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 6 | Llanidan | 0 | £ 22,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Bro Aberffraw** | 7 | Aberffraw | 0 | £ 15,000.00 | | 1 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 8 | Bodorgan | 0 | £ 12,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 9 | Rhosyr | 0 | £ 35,238.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Bro'r Llynnoedd** | 10 | Bodedern | 0 | £ 16,500.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 11 | Llanfair yn Neubwll | 0 | £ 22,000.00 | | 1 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 12 | Y Fali / Valley | 0 | £ 68,100.79 | | 1 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Canolbarth Môn** | 13 | Bodffordd | 0 | £ 15,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 14 | Llanddyfnan | 0 | £ 17,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 15 | **Llangefni** | 0 | £ 361,135.00 | ✓ | 4 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Cefni** | (15) | **Llangefni** | 0 | £ 361,135.00 | ✓ | 4 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 16 | Llangristiolus | 0 | £ 8,000.00 | | 1 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Crigyll** | 17 | Bryngwran | 0 | £ 18,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 18 | Llanfaelog | **2** | £ 44,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 19 | Trewalchmai | 0 | £ 17,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Lligwy** | 20 | Llaneugrad | 0 | £ 5,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 21 | Llanddyfnan | 0 | £ 17,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 22 | Llanfair Mathafarn Eithaf | 0 | £ 75,685.38 | ✓ | 3 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 23 | Pentraeth | **2** | £ 34,264.00 | ✓ | 3 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Parc a'r Mynydd** | 24 | **Caergybi / Holyhead** | 0 | £ 784,792.28 | | 2 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Seiriol** | 25 | **Biwmares / Beaumaris** | **11** | £ 39,290.00 | | 4 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 26 | Cwm Cadnant | 0 | £ 35,100.00 | | 3 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 27 | Llanddona | **1** | £ 9,500.00 | | 1 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 28 | Llangoed | 0 | £ 30,000.00 | | 6 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Talybolion** | 29 | Cylch y Garn | 0 | £ 8,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 30 | Llanfachraeth | 0 | £ 15,000.00 | | 2 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 31 | Llanfaethlu | 0 | £ 8,000.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 32 | Llanerchymedd | 0 | £ 26,185.00 | ✓ | 1 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 33 | Mechell | 0 | £ 11,190.38 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 34 | Tref Alaw | 0 | £ 6,745.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Tref Cybi** | (24) | **Caergybi / Holyhead** | 0 | £ 784,792.28 | | 2 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Twrcelyn** | 35 | **Amlwch** | **1** | £ 131,322.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 36 | Llanbadrig | 0 | £ 34,040.43 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 37 | Llaneilian | 0 | £ 26,462.82 | ✓ | 3 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 38 | Rhosybol | 0 | £ 8,400.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| **Ynys Cybi** | (24) | **Caergybi / Holyhead** | 0 | £ 784,792.28 | | 2 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 39 | Rhoscolyn | 0 | £ 6,000.00 | | 1 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |
| | 40 | Trearddur | 0 | £ 37,800.00 | | 0 | | ☐ Ia / Yes ☐ Na / No | |

**Llangefni : Ward Canolbarth Môn/Cefni**
**Caergybi / Holyhead : Ward Parc a'r Mynydd/Tref Cybi/Ynys Cybi Ward**

This page is intentionally left blank